**ROCP 40, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

Adolygiad o flaenoriaethau'r Pwyllgor ar gyfer y Chweched Senedd | Review of the Committee's priorities for the Sixth Senedd

Ymateb gan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru | Evidence from Wales Safer Communities Network

## Eich barn chi

**1. Beth yw'ch barn chi am dair blaenoriaeth strategol y Pwyllgor: Newid Hinsawdd; Cymunedau Cynaliadwy; a Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol?**

Mewn egwyddor, rydym ni'n cytuno gyda'r tair blaenoriaeth strategol. Rydym yn cytuno fel penawdau cyffredinol mae'n ymddangos nad ydynt wedi cael eu cyflawni ac felly mae'n ymddangos eu bod yn parhau'n berthnasol.

**2. I ba raddau y mae tair blaenoriaeth strategol y Pwyllgor yn dal yn berthnasol, o ystyried y datblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a welwyd ers i'r blaenoriaethau gael eu pennu ar ddechrau'r Chweched Senedd?**

Mae'r tri yn dal yn berthnasol, serch hynny mae'n bosibl bod effaith costau byw wedi cael effaith ar gyflymder y gwaith o'i ddarparu, ac efallai y bydd angen ei adolygu. Er enghraifft, os oes rhaid i Gynghorau leihau pa mor aml maent yn casglu gwastraff neu godi ffi am wastraff gardd, mae'n bosibl na fydd y targedau na'r amcanion yn cael eu cyrraedd ac fe allai arwain at gynnydd mewn achosion o dipio anghyfreithlon, taflu sbwriel, tanau heb eu rheoli neu danau wedi'u rheoli a'u cynllunio.

Fe allai costau byw hefyd effeithio ar allu poblogaeth Cymru i fforddio i wneud newidiadau a fyddai'n galluogi amcanion y Pwyllgor. Fe allai hyn olygu'r angen i addasu i'r amserlenni neu adnabod dulliau neu ffyrdd eraill o gynorthwyo â'r fforddiadwyedd. Mae yna sôn am ostyngiad mewn gwasanaethau bws sydd yn debygol o gael effaith ar y posibilrwydd bod pobl yn gallu defnyddio'r bws fel ffurf gynaliadwy o gludiant.

**3. Beth yw'ch barn chi am y blaenoriaethau manwl/rhaglen waith amlinellol ar gyfer Blynyddoedd 3 i 5 o'r Chweched Senedd (a nodir yn ei adroddiad, Blaenoriaethau ar gyfer y Chweched Senedd'?**

Rydym ni'n cytuno gyda darparu ar Ffyniant i bawb: Cymru sy'n effro i'r hinsawdd, ond rydym ni'n meddwl y bydd angen adolygu sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni yng ngoleuni costau byw a'r cyfraddau cynyddol o dlodi a dyled a sut y gallai hyn cael ei gyflawni ochr yn ochr â strategaethau perthnasol eraill megis Strategaeth Tlodi Plant (daeth ymgynghoriad drafft i ben ar 11 Medi 2023).

Fe ddylai adolygiad o'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru gael ei gwblhau gan ystyried yr effaith posibl ar ddiogelwch cymunedol a chydlyniant cymunedol, a'i gysylltu gyda diogelwch dŵr.

Gan adolygu'r fframwaith cynllunio fel y cynigir, byddem ni'n awgrymu y dylai gynnwys lles cymunedol, ond hefyd cynllunio ac adeiladu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol neu weithgarwch troseddol. Gallai cynnwys iechyd a diogelwch cymunedol fel rhan o'r ymgysylltu ar gyfer cynllunio helpu i atal problemau yn y dyfodol oherwydd dyluniad gwael.

O ran amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, rydym ni'n credu y gallai fod werth ystyried gweithred i atal tanau heb eu rheoli ac i leihau tipio anghyfreithlon a thaflu sbwriel sydd i gyd yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd naturiol.

**4. I ba raddau y mae blaenoriaethau manwl/rhaglen waith amlinellol y Pwyllgor yn dal yn berthnasol, o ystyried y datblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a welwyd ers iddynt gael eu pennu ar ddechrau'r Chweched Senedd?**

Yn ein barn ni, mae'r blaenoriaethau'n parhau'n berthnasol.

**5. A oes unrhyw faterion eraill yn ymwneud â blaenoriaethau/rhaglen waith/ffyrdd o weithio'r Pwyllgor yr hoffech roi sylwadau arnynt?**

Nid oes gennym sylwadau ychwanegol.

**6. Unrhyw beth arall?**

Nid oes gennym sylwadau ychwanegol.